

Rhaglen Adloniant

Yr Ŵyl Fawr Gymreig – Dydd Sadwrn 28 Chwefror 2026

Amser	Perfformwyr
Drwy'r dydd	Fab Faces – Paentio wynebau
Drwy'r dydd	Menter Iaith Sir Caerffili – gweithgareddau crefft i blant
Drwy'r dydd	Clwb Rygbi Dragons
Drwy'r dydd	Ffair hwyl
Drwy'r dydd	Gweithdai crefft
Drwy'r dydd	Golff Gwallgof
Drwy'r dydd	Dafad Rodeo
Drwy'r dydd	Stondinau
Drwy'r dydd	Marchnad Misol Coed Duon gan Crafty Legs
Drwy'r dydd	Rhaglen cerddoriaeth
Drwy'r dydd	Helfa 'Dod o hyd i'r Defaid'
10.00am – 4.00pm	Un sy'n debyg iawn i gymeriad dyn tân
10.45am	Chwaraewr Rygbi ar Goesau Bachau (1)
11.00am	Tylwyth Teg Celtaidd (1)
11.15am	Defaid a Ffermwr (1)
11.30am	Cenhinen Bedr ar Goesau Bachau (1)
11.45am	Draig Goch (1)
12.00pm	Person Coch Cymreig ar Goesau Bachau (1)
12.15pm	Merch Gymreig ar Goesau Bachau (1)
12.30pm	Draig Goch (2)
12.45pm	Chwaraewr Rygbi ar Goesau Bachau (2)
1.00pm	Tylwyth Teg Celtaidd (2)
1.15pm	Defaid a Ffermwr (2)
1.30pm	Cenhinen Bedr ar Goesau Bachau (2)
1.45pm	Draig Goch (3)
2.00pm	Person Coch Cymreig ar Goesau Bachau (2)
2.15pm	Merch Gymreig ar Goesau Bachau (2)
2.30pm	Chwaraewr Rygbi ar Goesau Bachau (3)
2.45pm	Draig Goch (4)
3.00pm	Tylwyth Teg Celtaidd (3)
3.15pm	Defaid a Ffermwr (3)
3.30pm	Cenhinen Bedr ar Goesau Bachau (3)
3.45pm	Person Coch Cymreig ar Goesau Bachau (3)
4.00pm	Merch Gymreig ar Goesau Bachau (3)

***Gall yr holl rhaglen newid**

Mwy am eich adloniant!

Cenhinen Bedr ar Goesau Bachau



Bydd y Genhinen Bedr draddodiadol hardd a lliwgar hon yn llithro drwy'r stryd gyda'i phresenoldeb disglair ac adfywiol y gwanwyn.

Facebook: Flying Colours

Merch Gymreig ar Goesau Bachau



Bydd y ferch Gymreig draddodiadol hon yn crwydro'r stryd, gan gynnig swyn a hudoliaeth Cymreig.

Facebook: A2B Entertainment

Defaid a Ffermwr



Dewch i gwrdd â Heidi, ei ffrind y ffermwr a'i phump ŵyn yn swatio yn eu pram hen ffasiwn hardd nhw. Bydd cerddoriaeth esmwythaol ac effeithiau sain annisgwyl yn deillio o'r pram ac yn plesio cynulleidfaoedd.

Facebook: A2B Entertainment

Chwaraewr Rygbi ar Goesau Bachau



Gan gymryd seibiant o'r cae, bydd y chwaraewr rygbi enfawr hwn yn ymarfer ei dechnegau pasio!

Facebook: Flying Colours

Tylwyth Teg Celtaidd



Wedi'i ysbrydoli gan lên gwerin Geltaidd a chysylltiad dwfn Cymru â thir, natur a chymuned. Wedi'i gwisgo mewn gwisg tylwyth teg gwyrdd sy'n hofran, gyda manylion Celtaidd a Chymreig cynnil, mae'r tylwyth teg yn ymgorffori adnewyddu, caredigrwydd a gofal am y byd naturiol.

Drwy gydol y digwyddiad, bydd yn ymgysylltu'n dyner ag ymwelwyr, gan roi pecynnau o hadau blodau gwyllt Cymreig fel symbol o dwf, gobaith a gofalu am ein hamgylchedd ni.

Facebook: Katie & Friends

Draig Goch



Ni fyddai digwyddiad ar thema Gymreig yn iawn heb Ddraig Goch gyfeillgar yn crwydro i anadlu rhywfaint o gynhesrwydd i'ch diwrnod chi!

Facebook: A2B Entertainment

Person Coch Cymreig ar Goesau Bachau



Coch yw lliw'r dydd! Yn mynd o gwmpas y stryd fel paun yn cynnig llawenydd wrth i chi gwrdd!

Facebook: Boutique Entertainment LTD

Stondinau Bwyd, Diod a Wybodaeth



Dros 40 o fasnachwyr Cymreig yn gwerthu bwyd blasus a chrefftau unigryw yn ogystal ag ychydig o stondinau gwybodaeth. Mwynhewch picau ar y maen blasus a blaswch ddiod neu ddau gan y gwerthwyr gwirodydd a seidr! Casglwch rai anrhegion crefft unigryw i deulu a ffrindiau neu beth am roi pleser i chi'ch hun!

Dafad Rodeo



Mae Dolly y Dafad Rodeo Gymreig bob amser yn ddechrau parti! Neidiwch ymlaen a chael hwyl AM DDIM!

Facebook: InHouse Entertainments
Menter Iaith Sir Caerffili



Elusen Gofrestredig rhif: 1105172.
Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant rhif: 5096968

Gan gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yng nghymunedau Bwrdeistref Sirol Caerffili, bydd Menter Iaith Sir Caerffili yn cynnig gweithgareddau llawn hwyl a rhyngweithiol i blant.

Facebook: Menter Caerffili

Facebook: Visit Caerphilly **Funfair Rides & Attractions**



O'r tŷ hwyl traddodiadol a setiau tegan bach i trampolinau a bachu hwyaden... dyma rai o'r reidiau a'r atyniadau a fydd yn difyrru'r plantos bychain.

Facebook: Denzil Danter Fun Fairs

Fab Faces – Paentio Wyneb



Trawsnewidiwch yn dywysog, tywysoges, archarwr neu anifail, neu ewch yn Gymreig a chael rhai cennin Pedr neu faneri Cymru ciwt.

Mae gan Fab Faces y ddawn hudol i'ch trawsnewid chi'n gymeriad o'ch dewis, gan ychwanegu lliw a gliter i wneud i chi ddisgleirio!

Yn ogystal â thatŵs gliter, gemau wyneb, plethiadau gwallt bobble, gliter wyneb gŵyl!

Facebook: Fab Faces

Clwb Rygbi Dragons



Ar y safle drwy'r dydd i ryngweithio ag ymwelwyr, gan gynnig gweithgareddau llawn hwyl a phethau am ddim ac ychydig o eitemau ar werth hefyd!

Facebook: Dragons RFC

Golff Gwallgof



Mwynhewch gêm AM DDIM o golff gwallgof ar y cwrs symudol hwn... Amser i ymarfer eich sgiliau pytio chi!

Facebook: InHouse Entertainments

Rhaglen Cerddoriaeth



Ardal berfformio i berfformwyr lleol i arddangos pobl dalentog ar thema Cymru! Boed hynny'n caneuon teyrnged i Tom Jones neu ganeuon traddodiadol Cymreig, maen nhw'n siŵr o wneud i'ch traed chi dapio!

Facebook: Visit Caerphilly

Gweithdai Crefft Creu a Chymryd



Gwnewch grefft â thema Gymreig a chymerwch hi adref i'w harddangos ar Ddydd Gŵyl Dewi! Mae'r gweithdy hwn yn cynnig cyfle i blant fod yn greadigol a chael ychydig o hwyl!

Facebook: Creative Workshops for Children

Marchnad Misol Coed Duon gan Crafty Legs



Wedi'i leoli yn Lle'r Farchnad, bydd dros 35 o grefftwyr a busnesau bach yn rhan o'r farchnad fisol. Gyda chelf a chrefftau, addurniadau cartref a rhagor, bydd digon o anrhegion wedi'u gwneud â llaw, eitemau unigryw a bwyd.

Facebook: Crafty Legs Events

Un sy'n debyg iawn i gymeriad dyn tân



Mae un sy'n debyg iawn i'n hoff ddyn tân yn dod i'r dref i groesawu a chyfarfod pawb! Ac yntau'n cael seibiant o'r pentref ffuglennol, Pontypandy, mae diffoddwr tân enwocaf Cymru yma i ddweud "shwmae!"

Facebook: Memories-and More

Find The Sheep Trail!



Mae'r defaid lleol wedi penderfynu ymweld â'r Wyl Fawr Gymreig ac maen nhw'n cuddio yng nghanol tref Coed Duon! Allwch chi ddod o hyd i'r 8 dafad sy'n cuddio yn y siopau i gael gwobr siocled?

Mae ffurflenni ar gael o stondin Cyngor Tref Coed Duon (ger Boots) i gymryd rhan yn yr helfa AM DDIM.

Facebook: Visit Caerphilly